Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol ymhen 40 a 200 mlynedd

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau (Blwyddyn 10 - 11)

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	03
Ein cefndir	04-05
Diben yr Adnodd	06-07
Sut i ddefnyddio'r adnodd	08
Crynhoi gweithgareddau	09
Cynlluniau Gwersi	10-17
Adnoddau	18-25
Dolenni Pellach	26

Cydnabyddiaethau

Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Taith, Llywodraeth Cymru a Dolen Cymru Lesotho, mae'radnodd hwnwedi'i seilio ar leisiau a phrofiadau bywyd cymunedau, addysgwyr, a phobl ifanc yng Nghymru a Lesotho.

© Taith & Dolen Cymru Lesotho | Caniateirddefnyddaddysgolgyda chydnabyddiaeth

Croeso i

Meddwl am y Dyfodol

Adnoddau Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau

Mae'r adnodd hwn yn helpu myfyrwyr i ystyried y thema **Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau** drwy hunaniaeth, perthyn (cynefin), tegwch a gwerthoedd.

Mae'n meithrin hyder o ran deall sut mae cymunedau yn gwneud penderfyniadau a sut mae'r syniad o berthyn yn cael ei fynegi yng Nghymru a Lesotho.

Ein Cefndir

Dolen Cymru yw cyswllt cyfeillgarwch rhyngwladol mwyaf hirsefydlog Cymru. Ers 1985, mae Dolen Cymru wedi datblygu perthnasoedd rhwng Cymru a Lesotho drwy brosiectau addysg, diwylliant, iaith, iechyd a chymuned.

Fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae cysylltiad wrth galon popeth a wnânt.

Ers dros ddeugain mlynedd, mae Dolen Cymru wedi:

- helpu athrawon yng Nghymru a Lesotho i ddysgu gan ei gilydd
- cefnogi partneriaethau ysgol a chyfnewidiadau dosbarth
- datblygu adnoddau sy'n dathlu gwerthoedd a hanesion cyffredin
- creu cyfleoedd i bobl ifanc fagu hyder a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd
- cysylltiadau cymunedol cryfach drwy gyfeillgarwch, parch a thegwch.

Meddwl am y Dyfodol

Pam Cymru ↔ Lesotho?

Er bod Cymru a Lesotho yn lleoedd gwahanol iawn, mae llawer o debygrwydd:

- hunaniaeth ddiwylliannol gref
- ieithoedd a thraddodiadau cyfoethog
- ymdeimlad dwfn o gymuned a pherthyn hanes o wydnwch ac undod
- brwdfrydedd am gerddoriaeth, adrodd straeon a'r dirwedd

Mae gwaith Dolen Cymru yn dod â'r elfennau cyffredin hyn ynghyd fel y gall plant ddysgu:

"Mae ein hunaniaeth yn cael ei siapio gan y lleoedd yr ydym yn perthyn iddynt, y straeon yr ydym yn eu rhannu, a'r gwerthoedd sy'n llywio ein ffordd o fyw."

Ein nod mewn addysg

Mae Dolen Cymru yn cefnogi athrawon drwy ddarparu adnoddau ymarferol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm sy'n:

✓ **dathlu hunaniaeth, iaith a diwylliant**
✓ **hyrwyddo tegwch, parch a chynhwysiant**
✓ **helpu plant i wneud cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho**
✓ **meithrin hyder a chwilfrydedd**
✓ **annog dinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o wrth-hiliaeth**

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r weledigaeth gyffredin honno.

Diben yr Adnodd

Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar thema **Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau**, wrth ystyried hunaniaeth, cynefin (perthyn), tegwch, a gwerthoedd cymunedol hefyd. Fe'i cynlluniwyd drwy lygad gwrth-hiliol ac mae'n cynnwys cymhwysedd digidol ystyrlon drwy gydweithio ag ysgol bartner yn Lesotho.

Mae’r gweithgareddau yn cefnogi meysydd allweddol Cwricwlwm Cymru ar draws y Dyniaethau, leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiadol a’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, helpu disgyblion i ddeall y gorffennol wrth fyfyrio ar bwy ydynt heddiw.

Gwerthoedd Craidd

Cysylltiad Diwylliannol

Mae’r adnodd hwn yn gwella dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth eu hunain wrth ddatblygu cysylltiadau ystyrlon rhwng Cymru a Lesotho.
Mae’n hyrwyddo chwilfrydedd, parch a balchder mewn treftadaeth ddiwylliannol.

Cymuned

Mae’r gweithgareddau yn annog tegwch, empathi a gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd. Mae disgyblion yn dysgu am sut mae cymunedau yn y gorffennol a'r presennol yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel, eu cynnwys a'u trin â pharch.

Diben yr Adnodd

Pryd i ddefnyddio Padlet

Mae Padlet a rennir rhwng eich ysgol a'ch dosbarth partner yn Lesotho.

Sganiwch y cod QR isod i gyrchu'r Padlet a phostio yn y golofn gywir.

Gall athrawon arddangos postiadau'r ysgol bartneri'r dosbarth fel y gall disgyblion gymharu syniadau, cyfnewid ffyrdd o feddwl a dysgu gan ei gilydd.

Gallwch ddefnyddio Padlet i rannu myfyrdodau'ch myfyrwyr.

Padlet

Beth i'w uwchlwytho

Ciplun Dyfodol Digidol, **Cerdyn gorffen, erthygl cylchgrawn**, **Gweithgaredd 4**

Dylai disgyblion rannu syniadau ynghylch sut gallai bywyd fod yn decach neu'n well yng Nghymru neu Lesotho yn y dyfodol.

Sut i ddefnyddio'r adnoddau

Gellir cyflwyno'r pecyn hwn fel dilyniant llawn o wersi, fel sesiynau unigol, neu ochryn ochr â thestunau ategol.

Mae pob pwnc yn cynnwys:

- Amcan dysgu clir
- Canllawiau addysgu cam wrth gam
- Syniadau gwahaniaethu a dilyniant
- Adnoddau gweithgareddau disgyblion
- Tasg i fyfyrio neu i gloi

Gall athrawon ddilyn y drefn a awgrymir neu ddewis gweithgareddau i gyd-fynd â'u helfen gwricwlwm dan sylwa'r amser sydd ar gael.

Mae'r codau QR yn y pecyn hwn yn mynd â chi'n syth at y deunyddiau sydd eu hangen arnoch i gyflwyno pob gwers yn hyderus.

Testun ategol

Darperir testunau ategol i athrawon allu cyfeirio atynt i wella'u gwybodaeth ynghylch pwnc ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w defnyddio'n uniongyrchol gan ddisgyblion.

Crynhoi gweithgareddau

Mae ein rhaglen yn cynnwys

Mae disgyblion yn rhannu eu gwaith â dosbarth partner yn Lesotho drwy uwchlwytho darluniau, capsiynau neu negeseuon llafar ynghylch eu cartref, eu hysgol neu eu symbolau. Mae gweld postiadau ei gilydd yn helpu disgyblion i ddysgu am hunaniaeth a pherthyn o safbwynt byd-eang, sy'n cefnogi dull gwrth-hiliol wedi'i wreiddio mewn cysylltiad lle mae plant Cymru a Lesotho'n dathlu eu diwylliannau a'u gwerthoedd mewn modd cyfartal.



Iaith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iaith yn helpu pobl deimlo fel eu bod yn cael eu cynnwys a bod eu llais yn cael ei glywed yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut gellir defnyddio iaith yn deg mewn gwahanol gymunedau.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad

Ym mhle mae iaith yn gwneud i chi deimlo fel eich bod yn perthyn, ac ym mhle mae'n gwthio pobl allan?

Tasg: Mae myfyrwyr yn creu rhestr unigol neu fap meddwl: Ieithoedd y maent yn eu clywed/defnyddio (cartref, ysgol, cymuned, ar-lein). Lle maent yn teimlo'n hyderus neu wedi'u tawelu. Mae myfyrwyr yn rhannu un tebygrwydd ac un gwahaniaeth mewn parau.

Gweithgaredd 1

Tasg
Mae myfyrwyr yn darllen y ddau destun ategol ac yn anodi ar gyfer: Sut caiff iaith ei disgrifio (treftadaeth, sgil, rhwystr, hawl), pwy y mae disgwyl iddynt addasu a pha bŵer mae iaith yn ei roi neu'n ei ddileu.

Questions
• A yw iaith yn cael ei fframio o ran hunaniaeth neu ddefnyddioldeb?
• Pwy sy'n penderfynu pa iaith sydd "o bwys"?
• Beth sy'n cael ei ragdybio am ddysgwyr/siaradwyr?

Ysgrifennwch un frawddeg i gymharu:
Yn y testun Cymraeg..., tra bod y testun Lesotho yn...

Gweithgaredd 2

Tasg:
Mae myfyrwyr yn sortio pob senario i mewn i ddau gategori:

- Sefyll gyda siaradwyr
- Penderfynu dros siaradwyr

Rheolau
Ar gyfer pob dewis, mae'n rhaid i fyfyrwyr gyfiawnhau defnyddio o leiaf un o'r termau canlynol:

- Pŵer - Pwy sy'n rheoli penderfyniadau?
- Llais - Pwy sy'n cael eu clywed a phwy sy'n cael eu hanwybyddu?
- Systemau - Sut mae addysg, polisi, neu gyllid yn siapio'r hyn sy'n digwydd

(Dim ymatebion "Rwy'n credu / Rwy'n teimlo" — tystiolaeth yn unig.)

Adnodd 1 tud. 18, Adnodd 2 tud. 19

Iaith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iaith yn helpu pobl deimlo fel eu bod yn cael eu cynnwys a bod eu llais yn cael ei glywed yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut gellir defnyddio iaith yn deg mewn gwahanol gymunedau.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 3

Tasg

Mewn paraupostiad, rhaid i fyfyrwyr greu ciplun dyfodol digidol:

- Pennawd, byr, neu ffeithlun:
- Beth fydd yn digwydd i Gymraeg / Sesotho os yw'r sefyllfa bresennol yn parhau?

Rhaidcynnwys

- Un cyfle
- Un risg
- Pwy sy'n gyfrifol

Adnodd 3, tud. 20

Gweithgaredd 5

Tasg

(Dewiswch UN frawddeg yn unig)
Mae myfyrwyr yn cael un testun byr (3-4 llinell) gan:

- polisi ysgol NEU
- datganiad cyhoeddus am gynhwysiant/iaith NEU
- senario wedi'i symleiddio yn seiliedig ar y testun ategol

Mae'n rhaid iddynt olygu neu ychwanegu UN frawddeg sy'n gwella mynediad neu lais.

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad

- Un penderfyniad am iaith heddiw a allai newid tegwch yfory ydy...
- Byddai dyfodol lle mae cyfiawnder iaith yn bodoli yn edrych fel...
- Y perygl a ddaw o anwybyddu hawliau iaith yw...

(dewiswch un):

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gyrchu ein padlet lle gallwch uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho myfyrdodau neu neges lafar.
Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Annibyniaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu/;

Ystyried sut mae annibyniaeth yn cael ei brofi a'i siapio yng Nghymru a Lesotho, a dadansoddi sut mae pŵer, llais, a systemau yn cael dylanwad ar annibyniaeth pwy sy'n cael ei gefnogi neu ei gyfyngedig.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad: Sut mae bod yn annibynnol yn edrych yn eich bywyd bob dydd?

Mae myfyrwyr yn ysgrifennu 3 gair neu ymadrodd byr (e.e. gwneud penderfyniadau, cael arian, teimlo'n ddiogel, defnyddio eich llais, symud yn rhydd). Trafod mewn pâr (2-3 munud)

Mae myfyrwyr yn trafod::

- Pwy sy'n penderfynu faint o annibyniaeth sydd gan bobl?
- A oes gan bob person yr un lefel o annibyniaeth? Pam, neu pam ddim?

Gweithgaredd 1

Tasg

Mae myfyrwyr yn darllen un testun am annibyniaeth Cymru ac un amannibyniaeth Lesotho.

Maent yn anodi ar gyfer:

- Sut mae annibyniaeth yn edrych yma
- Yn nwylo pwy mae'r pŵer
- Pa systemau sy'n cefnogi neu'n cyfyngu ar annibyniaeth (cyfraith, economi, addysg, iaith)

Cwestiynau penodol (dewiswch 3):

- Pwy sy'n penderfynu beth mae "annibyniaeth" yn ei feddwl?
- Pwy sy'n cael y budd mwyaf o'r systemau presennol?
- Beth mae disgwyl iddo ddigwydd unwaith y bydd annibyniaeth yn bodoli?

Her: Tanlinellwch un tybiaeth ym mhob testun.

Gweithgaredd 2

Tasg:

Mewn parau, mae myfyrwyr yn archwilio un cyd-destun:

- Cymru heddiw
- Lesotho heddiw

Cwestiynau archwilio:

- Â phwy yr ymgynghorir?
- Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol?
- Pwy sy'n cael eu cau allan?
- Beth sy'n digwydd os bydd y system yn methu?

Her: Cynigwch un gwelliant strwythurol, nid newid ymddygiadol.

Adnodd 4, tud. 21-23

Annibyniaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu

Ystyried sut mae annibyniaeth yn cael ei brofi a'i siapio yng Nghymru a Lesotho, a dadansoddi sut mae pŵer, llais, a systemau yn cael dylanwad ar annibyniaeth pwy sy'n cael ei gefnogi neu ei gyfyngedig.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 4

Tasg

Cylchdrowch yn dawel mewn parau ac ychwanegwch ymatebion ysgrifenedig byr at bob dalen. Ymatebwch i P'un a yw'n annibyniaeth neu'n rheolaeth? Pwy sy'n cael y budd mwyaf? Pa bŵer neu lais sydd ar goll? Gall myfyrwyr adeiladu ar sylwadau eraill.) Mae athrawon yn rhoi rheolau ar fwrdd gwyn: Defnyddiwch bŵer, systemau, neu iaith gwneud penderfyniadau (cyfreithiau, sefydliadau, pwy sy'n penderfynu). Dim barnau "da/drwg"..

1. Mae annibyniaeth yn golygu gwneud penderfyniadau heb gymeradwyaeth allanol.
2. Mae annibyniaeth economaidd yn bwysicach nag annibyniaeth wleidyddol.
3. Mae annibyniaeth yn bodoli os yw arweinwyr yn penderfynu, hyd yn oed os nad ymgynghorir â phobl.
4. Os bydd arian ac adnoddau yn cael eu rheoli yn rhywle arall, mae annibyniaeth yn gyfyngedig.

Ôl-drafodaeth:

Trafodwch anghytundebau, patrymau (annibyniaeth symbolaidd vs annibyniaeth strwythurol), a sut y gall rheolaeth barhau heb lais nac adnoddau.

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Tasg

Mewn parau, recordiwch ymateb 30-60 eiliad i'r ysgogiad ar y bwrdd: "Sut fyddai gwir annibyniaeth yn edrych pe bai pŵer a gwneud penderfyniadau yn cael eu rhannu'n deg?"

Yn eich ymateb, eglurwch:

- Beth sydd angen newid (systemau, cyfreithiau, sefydliadau, neu benderfyniadau)
- Lleisiau pwy ddylai gael eu cynnwys
- Pwy ddylai fod a phŵer gwahanol

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gyrchu ein padlet lle gallwch uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho myfyrdodau neu neges lafar.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Twristiaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iechyd a salwch yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n ymateb â gofal, cymorth a thegwch.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Mae twristiaeth yn adrodd stori am le.
Meddyliwch am le rydych chi'n ei adnabod yn dda (eich tref, dinas, neu rywle rydych chi wedi byw). Ysgrifennwch dri gair a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio'r lle i ymwelwyr, a thri gair sy'n disgrifio sut beth yw byw yno mewn gwirionedd.

Cymharwch â phartner, nodwch un gwahaniaeth, a byddwch yn barod i ddweud lleisiau pwy sydd ar goll o'r stori.

Gweithgaredd 1

Tasg
Darllenwch y tri testun ategol (Cymru + Lesotho).

Anodwch gan ddefnyddio'r cwestiynau Archwiliad Pŵer:

- Pwy sy'n siarad?
- Pwy sy'n elwa?
- Pwy sydd ar goll?
- Beth sy'n cael ei symleiddio neu ei adael allan?
- What is simplified or left out?

Rheol: Dim barn. Defnyddiwch dystiolaeth o'r testun yn unig.

Her:
Nodwch un tebygrwydd ac un gwahaniaeth yn y ffordd y mae Cymru a Lesotho yn cael eu cyflwyno.

Gweithgaredd 2

Tasg
Darllenwch y datganiadau twristiaeth. Trefnwch bob un fel un sy'n:

- Sefyll GYDA chymunedaus
- Penderfynu AR RAN cymunedau

Rheol
Cyfiawnhewch pob dewis gan ddefnyddio un gair allweddol: systemau / llais / pŵer
Adnodd 5 tud. 24 , **Adnodd 6 tud.25**

Gweithgaredd 3

Tasg
Mae myfyrwyr yn creu "ciplun o dwristiaeth y dyfodol" digidol: Pennawd, postiad Instagram, neu ffeithlun bychan.

Ysgogiad: "Mae myfyrwyr yn creu "ciplun o dwristiaeth y dyfodol" digidol: Pennawd, postiad Instagram, neu ffeithlun bychan."

Rhaid cynnwys

- Un cyfle
- Un risg
- Pwy sy'n gyfrifol

Tourism

Teaching Ideas

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iechyd a salwch yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n ymateb â gofal, cymorth a thegwch.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 4

Tasg (dewiswch un):

Mae myfyrwyr yn ail-fframio twristiaeth fel bod cymunedau yn ganolog iddo:

- Ail-ysgrifennwch slogan twristiaeth o safbwynt preswylydd lleol
- Ysgrifennwch gerdd i'w hadrodd ar lafar gyda'r teitl "Nid Cyrchfan Ydym Ni"
- Dewch o hyd i linell o bamffled i dwristiaid a'i hail-ysgrifennu i gael gwared ar gam-fanteisio

Meini Prawf Llwyddiant KS4

- Yn dangos effaith, nid bwriad
- Yn cydnabod pŵer a mynediad
- Yn osgoi naratif arwr

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

"Gall twristiaeth gysylltu cymunedau neu ddyfnhau anghydraddoldeb. Gan ddefnyddio un enghraifft o Gymru neu Lesotho, esboniwch pa un y mae'n ei wneud, a phwy sy'n elwa neu'n colli oherwydd y penderfyniadau y tu ôl iddo."

Rheol:
Un neu ddwy frawddeg. Rhaid cyfeirio at bŵer, systemau, neu wneud penderfyniadau.

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gyrchu ein padlet lle gallwch uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho myfyrdodau neu neges lafar.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Bywyd Gwledig a Basotho

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Archwilio sut mae bywyd gwledig yn siapio hunaniaeth, gwaith a chymuned yng Nghymru a Lesotho, a chymharu'n feirniadol sut mae pŵer, adnoddau a systemau'n effeithio ar gymunedau gwledig mewn gwahanol gyd-destunau.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad ar fwrdd: "Meddyliwch am un peth sy'n gwneud i le deimlo fel cartref."

Tasg
Mae myfyrwyr yn ysgrifennu un gair yn unig o dan bob pennawd:
•Lle
•Pobl
•Gwaith / tir
•Iaith neu draddodiad

Yna rhannwch â phartner: un tebygrwydd ac un gwahaniaeth

Gweithgaredd 1

Mae myfyrwyr yn darllen y ddau destun bywyd gwledig ac yna nodi dim ond ar gyfer:

- Sut mae bywyd gwledig yn cael ei ddisgrifio (dewis / traddodiad / angenrheidrwydd / brwydr)
- Pwy y mae disgwyl iddynt addasu
- Pa systemau sy'n siapio bywyd bob dydd (tir, trafnidiaeth, addysg, swyddi)

Cwestiynau:
- Pwy sy'n rheoli'r adnoddau yn y testun hwn?
- Gwybodaeth pwy sy'n bwysig?
- Beth sy'n cael ei ragdybio am "bobl wledig"?

Ysgrifennwch un frawddeg i gymharu: Yn y testun Cymraeg..., tra bod y testun Basotho yn...

Gweithgaredd 3

Tasg:
Dewiswch un maes (trafnidiaeth, mynediad at addysg, mynediad digidol, neu ddefnydd tir) a chynlluniwch sut y byddai'n gweithio i gefnogi cymunedau gwledig.

Labelwch eich dyluniad i ddangos pwy sy'n penderfynu, pwy sy'n elwa, a gan bwy mae'r pŵer.

Bywyd Gwledig a Basotho

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iechyd a salwch yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n ymateb â gofal, cymorth a thegwch.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Enghraifft:
Gwasanaeth bws cymunedol sy'n rhedeg rhwng pentrefi, ysgolion, siopau a chanolfannau iechyd ar amseroedd penodol bob dydd. Cyngor lleol a grŵp o gynrychiolwyr cymunedol. Pobl ifanc, trigolion hŷn, teuluoedd heb geir, a phobl sydd angen gofal iechyd neu addysg. Wedi'i rannu rhwng y cyngor lleol (arian a rheolau) a'r grŵp cymunedol (llwybrau ac anghenion).

Gweithgaredd 4

Tasg
Mae myfyrwyr yn creu erthygl fer ar gyfer cylchgrawn am gymunedau gwledig. Gallwch ddewis un fformat: Pennawd gyda pharagraff byr, post arddull cyfryngau cymdeithasol gyda chapsiwn, a ffeithlun syml.

Prompt
Beth fydd yn digwydd i gymunedau gwledig os bydd y dewisiadau twristiaeth presennol yn parhau? Rhaid i'ch erthygl gynnwys:

- Un cyfle
- Un risg
- Pwy sydd â'r cyfrifoldeb (e.e. llywodraethau, busnesau, twristiaid, systemau).

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad: "Mae dyfodol teg i gymunedau gwledig yn dibynnu ar..."

Rheol (byr ond cadarn):
Rhaid i fyfyrwyr gyfeirio at bŵer, systemau, neu wneud penderfyniadau, nid ymdrech unigol na bwriadau da.

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gyrchu ein padlet lle gallwch uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho myfyrdodau neu neges lafar.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Sefyll gyda siaradwyr	Penderfynu dros siaradwyr

Iaith

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau

Mae cydsefyll yn parchu hawliau pobl drwy wrando arnynt, eu cynnwys, a rhannu penderfyniadau, a pheidio â siarad drostynt.

1. Mae ysgol yn cyflwyno cymorth cyfieithu ar ôl i bolisïau gael eu cytuno gan uwch staff.

2. Mae disgyblion sy'n siarad sawl iaith yn gweithio gydag athrawon i ailgynllunio cefnogaeth iaith mewn gwersi.

3. Mae ymgyrch elusennol yn sôn am "achub ieithoedd sydd mewn perygl" heb ymgynghori â'r bobl sy'n eu siarad.

4. Mae aelodau'r gymuned yn arwain eu prosiect adfywio iaith eu hunain ac yn penderfynu sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio.

5. Mae ysgolion yn hyrwyddo dwyieithrwydd ond yn annog disgyblion i beidio â defnyddio ieithoedd cartref mewn trafodaethau dosbarth.

6. Mae awdurdodau lleol yn ymgynghori â theuluoedd cyn newid y ddarpariaeth iaith mewn ysgolion.

7. Mae gwerslyfr yn cyfeirio at iaith fel un sy'n "marw" heb egluro sut mae siaradwyr yn ei defnyddio'n weithredol heddiw.

8. 8 Mae pobl ifanc yn cael eu gwahodd i rannu sut mae iaith yn effeithio ar eu hunaniaeth, ond nid yw eu syniadau'n cael eu cynnwys yn y penderfyniadau terfynol.

9. Mae cyllid ar gyfer addysg iaith yn cael ei roi'n uniongyrchol i raglenni a redir gan y gymuned yn hytrach nag i sefydliadau allanol.

10. Mae polisi cenedlaethol yn cefnogi dysgu iaith ond nid yw'n darparu adnoddau na hyfforddiant i'w gwneud yn hygyrch yn ymarferol.

DAILY NEWS
Word • Business • Finance • Lifestyle • Travel • Sport • Weather

ARCHWILIAD PŴER ANNIBYNIAETH

Pwy sy'n penderfynu? Pwy sy'n elwa? Pwy sy'n cael eu cau allan?

Archwiliad yn cael ei gynnal gan: **Pwnc:**

Pŵer Gwneud Penderfyniadau

	Yn nwylo pwy mae'r pŵer ffurfiol yn y system hon?
	Sut mae arweinyddiaeth yn cael ei dewis neu ei chynnal?
	Pa benderfyniadau y gall y grŵp hwn eu gwneud?
	Tystiolaeth o'r testun (dyfyniad / ffaith):

Llais ac Ymgynghori

	Pwy sy'n cael ei gynnwys mewn gwneud penderfyniadau?
	Sut y gall pobl fynegi safbwyntiau?
	A yw rhai lleisiau'n cael eu blaenoriaethu dros rai eraill?
	Tystiolaeth o'r testun:

Cynhwysiant ac Eithrio

	Pwy sy’n cael ei eithrio neu ei ymyleiddio?
	A oes unrhyw grwpiau wedi'u crybwyll fel rhai sydd ar goll neu’n cael eu hanwybyddu?
	Pa rwystrau sy’n atal cyfranogi?
	Tystiolaeth o’r testun:

Atebolrwydd a Herio

	Beth sy’n digwydd os yw pobl yn anghytuno â phenderfyniadau?
	A oes systemau i herio pŵer?
	Pwy sy’n gorfodi rheolau neu gyfreithiau?
	Tystiolaeth o’r testun:

Canlyniadau ac Effaith

	Pwy sy'n cael y budd mwyaf o'r system hon?
	Pwy sy'n cael y budd lleiaf?
	Beth yw'r effeithiau hirdymor ar annibyniaeth?
	Tystiolaeth o'r testun:

Adnodd 5

Sefyll GYDA chymunedau	Penderfynu AR RAN cymunedau

Twristiaeth

1. Dylai cynlluniau twristiaeth gael eu cymeradwyo gan drigolion lleol cyn iddynt gael eu cyflwyno.
2. Mae twristiaeth yn dod â swyddi, felly dylai cymunedau addasu i anghenion ymwelwyr.
3. Dylai pobl leol benderfynu sut caiff eu diwylliant ei rhannu â thwristiaid.
4. Dylai atyniadau ymwelwyr flaenoriaethu'r hyn mae ymwelwyr eisiau ei weld.
5. Dylai arian a ddaw o dwristiaeth gael ei ail-fuddsoddi ar gyfer tai a gwasanaethau lleol.
6. Dylai diwylliant traddodiadol gael ei symleiddio fel y gall twristiaid ei ddeall.
7. Llywodraethau cenedlaethol, nid cymunedau lleol, ddylai wneud penderfyniadau ynghylch twristiaeth.
8. Mae twristiaeth yn gweithio orau pan fydd barn leol yn llwyio sut caiff lleoedd eu hyrwyddo.

DOLENNI PELLACH

Podlediadau

Iaith Basotho a'r Iaith Gymraeg

Annibyniaeth Lesotho

Annibyniaeth Cymru

Iaith Basotho

Iaith Gymraeg

MANYLION CYSWLLT

Dolen Cymru

Dysgwch ragor am y bartneriaeth Cymru-Lesotho:

https://www.dolencymru.org

swyddfa@dolencymru.org

Taith

Dysgwch fwy am gyfleoedd dysgu rhyngwladol:

https://www.taith.wales

Dolen LESOTHO CYMRU

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Taith

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Dysguar y Cyd, Gwellaar y Cyd

Arolwg adborth

Mae'r adnodd hwn yn cael ei ddatblygu drwy brofiadau cyffredin. Sganiwch i helpu i lywio'r rhifyn nesaf.